Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2021 – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre


Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2742A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny wrth iddynt ddefnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes gan ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn. Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 13

Atodiad 2 – ffi archwilio 16

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 17

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

1 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2021 a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae’r Ddeddf honno’n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio’r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Rwy’n adrodd fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Mae’r gwaith archwilio eleni wedi digwydd ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn parhau i ymateb i’r heriau digynsail a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19, wrth iddynt adfer gwasanaethau ar yr un pryd. Cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli’n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng presennol ar gydnerthedd a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Fy nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i’r afael â’r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Mae gwaith archwilio ar safle yn parhau i fod yn gyfyngedig, a buom yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell pan fo hynny’n bosibl drwy ddefnyddio technoleg. Yn anochel cafodd hyn effaith ar sut yr ydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae wedi helpu hefyd i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

4 Fel yn 2020, nid oedd cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom y gwaith, ond hefyd wrth ystyried cyn belled ag y bo modd ystyriaethau ar gyfer datganiadau ariannol yn deillio’n uniongyrchol o’r pandemig. Mae cyflawni’r archwiliad yn adlewyrchu ymdrech ar y cyd gan fy staff a swyddogion yr Ymddiriedolaeth i gofleidio a galluogi ffyrdd newydd o weithio gan aros yn hyblyg o ran y materion niferus sy’n codi a bod yn ystyriol ohonynt.

5 Rwyf wedi addasu pwyslais a dull gweithredu fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei fod yn berthnasol yng nghyd-destun yr argyfwng ac i alluogi gweithio o bell. Mae fy rhaglen waith wedi canolbwyntio ar themâu, gwersi a chyfleoedd yn ymwneud â llywodraethu’r GIG a llesiant staff y GIG. Rwyf wedi adolygu’r broses o gyflwyno’r brechlyn COVID-19. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ar sut y mae trefniadau llywodraethu wedi addasu i ymateb i’r pandemig, a’r effaith y mae’r argyfwng wedi’i chael ar ddarparu gwasanaethau.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1)**. Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith arfaethedig sy'n cael ei ail-gwmpasu ar hyn o bryd.

7 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o wneud fy ngwaith, o'i chymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2021.

8 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2021 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor Archwilio ar 11 Ionawr 2022. Bydd y Bwrdd hefyd yn cael yr adroddiad. Rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

11 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir ac eithrio balans stocrestr yr Ymddiriedolaeth, ar 31 Mawrth 2021, o £95.564 miliwn. O ganlyniad i'r pandemig, nid oeddem yn gallu cael y dystiolaeth archwilio angenrheidiol, fel y gorfodir gan Safon Archwilio broffesiynol ISA501 ar gyfer balansau stocrestrau perthnasol, ac felly cyhoeddwyd barn 'cyfyngiad ar gwmpas' amodol. Nid oedd yr amod hwn o ganlyniad i unrhyw ddiffygion yn systemau nac yng ngweithredoedd yr Ymddiriedolaeth ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth (a oedd yn berthnasol i fy archwiliad). Hefyd, gosodais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon yn nodyn 24 sy'n ymwneud ag effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 ar gyfer Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ynghylch Atebolrwydd Treth Pensiwn Clinigwyr.

12 Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2020-21 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn unol ag awdurdodau neu na chawsant eu defnyddio at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2020-21 yr Ymddiriedolaeth.

13 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth falans ariannol am y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Gosodais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth i nodi rhagor o fanylion am y paragraff Pwyslais ar Fater a gynhwysais yn fy marn archwilio.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

14 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- mae rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru wedi'i chyflwyno ar gyflymder sylweddol gyda phartneriaid lleol, partneriaid cenedlaethol a phartneriaid y DU yn cydweithio i frechu cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru. Mae angen cynllun clir yn awr ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.
- mae holl gyrff y GIG wedi parhau i ganolbwyntio'n glir ar lesiant staff drwy gydol y pandemig ac wedi gweithredu ystod eang o fesurau i gefnogi iechyd corfforol a llesiant meddyliol eu staff yn ystod yr argyfwng. Mae'n hanfodol y datblygir y gweithgareddau hyn, a bod llesiant staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog i gyrff y GIG wrth iddynt ymdrin â heriau cyfunol er mwyn adfer gwasanaethau, parhau i ymateb i bandemig COVID-19, a hefyd rheoli pwysau tymhorol.
- mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol a monitro eu darpariaeth yn effeithiol ac mae ganddynt yr hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid.
- mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol, ond erys cyfleoedd i wella tryloywder cyhoeddus.
- cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21 ac mae ganddi gynllun ariannol clir i ddarparu gwasanaethau yn 2021-22.

15 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwilio cyfrifon

16 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21. Trwy gyfrwng y datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian parod. Mae paratoi'r datganiadau yn elfen hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

17 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2021 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21. Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

18 Caiff fy nghyfrifoldebau wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi'r datganiadau ariannol 2020-21

19 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir ac eithrio balans stocrestr yr Ymddiriedolaeth, ar 31 Mawrth 2021, o £95.564 miliwn. O ganlyniad i'r pandemig, nid oeddem yn gallu cael y dystiolaeth archwilio angenrheidiol, fel y gorfodir gan Safon Archwilio broffesiynol ISA501 ar gyfer balansau stocrestr perthnasol, ac felly cyhoeddwyd barn 'cyfyngiad ar gwmpas' amodol. Nid oedd yr amod hwn o ganlyniad i unrhyw ddiffygion yn systemau nac yng ngweithredoedd yr Ymddiriedolaeth ac nid oedd fy ngwaith yn nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth (a oedd yn berthnasol i fy archwiliad). Hefyd, gosodais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon yn nodyn 24 yn ymwneud ag effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 ar gyfer Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ynghylch Atebolrwydd Treth Pensiwn Clinigwyr.

20 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei chyfrifon drafft o fewn y terfyn amser gofynnol. Roedd y cyfrifon, a'r papurau gwaith ategol, o ansawdd da, a rhoddodd swyddogion yr Ymddiriedolaeth lefel briodol o gymorth ac ymgysylltiad i ni, dan yr hyn a oedd yn amgylchiadau heriol, i'n galluogi i gwblhau'r archwiliad yn amserol.

21 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o fy ngwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn imi gyhoeddi fy marn archwilio ynghylch y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn wrth Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 8 Mehefin 2021. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
| --- | --- |
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Roedd ansicrwydd yn bodoli mewn cysylltiad â nifer o achosion Setliad Strwythuredig Cronfa Risg Cymru lle nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi gwerth y ddarpariaeth o £20.5 miliwn yn ymwneud â'r achosion hyn. Roeddem yn fodlon nad oedd unrhyw or-ddatganiad posibl o werth y ddarpariaeth yn berthnasol i'n barn ni. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Roedd rhai camddatganiadau yn y cyfrifon a gywirwyd gan y rheolwyr. |
| Materion arwyddocaol eraill | Heblaw am y Pwyslais ar Fater y gwnaed sylwadau arno uchod, ni nodwyd materion arwyddocaol eraill. |

22 Cynhaliais adolygiad hefyd o'r ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod yr wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2021 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.

23 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac rydym yn rhagweld y bydd yr archwiliad hwn yn cael ei gwblhau erbyn dyddiad cau'r Comisiwn Elusennau, sef 31 Ionawr 2022.

## Rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol

24 Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2020-21 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn unol ag awdurdodau na thrafodiadau na ddefnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2020-21 yr Ymddiriedolaeth.

25 Mae'n rhaid i drafodiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Mae'n rhaid bod ganddi'r pwerau i gael yr incwm ac i wario'r arian. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan yr Ymddiriedolaeth y pwerau i'w cael neu i'w hysgwyddo.

26 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Gosodais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth i nodi rhagor o fanylion am y paragraff Pwyslais ar Fater a gynhwysais yn fy marn archwilio.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

27 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu pa mor dda yr oedd cyflwyno'r rhaglen frechu COVID-19 yn dod yn ei flaen;
- adolygu sut yr oedd cyrff y GIG yn cefnogi llesiant staff yn ystod pandemig COVID-19; a
- chynnal asesiad strwythuredig graddol o drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

28 Mae fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Rhaglen frechu COVID-19

29 Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddais ganfyddiadau fy adolygiad cychwynnol o'r broses cyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru. Ystyriodd fy ngwaith y ffactorau a effeithiodd ar y broses o gyflwyno a heriau a chyfleoedd yn y dyfodol.

30 Canfûm fod y rhaglen frechu wedi'i chyflwyno'n gyflym iawn. Ar adeg adrodd, cyfraddau brechu yng Nghymru oedd yr uchaf o bedair gwlad y DU, a rhai o'r uchaf yn y byd. Roedd y cerrig milltir yn strategaeth frechu Llywodraeth Cymru yn rhoi hwb cryf i yrru'r rhaglen yn ei blaen a hyd at yr adeg adrodd, roedd y cerrig milltir allweddol wedi'u cyflawni.

31 Mabwysiadwyd canllawiau Cyd-bwyllgor Brechu ac Imiwneiddio'r DU ar grwpiau blaenoriaeth ond mae'r broses o nodi pobl yn rhai o'r grwpiau hynny wedi bod yn heriol.

32 Mae'r sefydliadau ledled Cymru a oedd yn rhan o'r broses gyflwyno wedi gweithio'n dda i sefydlu amrywiaeth o fodelau brechu sy'n gwneud y defnydd gorau o'r brechlynnau sydd ar gael, gan hefyd roi cyfleoedd i ddarparu brechlynnau yn agos at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

33 Roedd y nifer a oedd yn manteisio ar y brechlyn yn gyffredinol, hyd at adeg adrodd, yn uchel, ond roedd yn llai ymhlith rhai grwpiau ethnig ac yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Ar adeg yr archwiliad gwelwyd ychydig iawn o wastraffu brechlyn, ond roedd pryderon yn dod i'r amlwg ynghylch pobl nad oeddent yn cadw at apwyntiadau wedi'u trefnu.

34 Y gadwyn gyflenwi ryngwladol yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar y broses gyflwyno, gyda stoc gyfyngedig o frechlynnau yn cael ei chadw yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd cynyddu ymwybyddiaeth o lefelau cyflenwi yn y dyfodol yn caniatáu i fyrddau iechyd reoli'r broses o gyflwyno'r brechlyn yn effeithiol.

35 Wrth i'r rhaglen symud i ail hanner 2021, cafwyd heriau'n ymwneud ag annog pobl i fanteisio ar y brechlyn mewn rhai grwpiau, cydnerthedd y gweithlu brechlyn a pha mor hawdd oedd hi i gael gafael ar leoliadau. Nodais yr angen am gynllun tymor hwy ledled Cymru i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac elfennau eraill o'r rhaglen frechu barhaus[1].

## Sut yr oedd cyrff y GIG yn cefnogi llesiant staff yn ystod pandemig COVID-19

36 Ystyriodd fy adolygiad sut y mae cyrff y GIG yng Nghymru wedi cefnogi llesiant eu staff yn ystod y pandemig, gan ganolbwyntio'n benodol ar eu trefniadau ar gyfer diogelu staff sydd mewn mwy o berygl o COVID-19.

37 Mae staff y GIG wedi dangos cydnerthedd ac ymroddiad aruthrol drwy gydol y pandemig, er eu bod yn wynebu straen enfawr ar eu hiechyd meddwl a chorfforol.

38 Roedd y GIG yng Nghymru eisoes yn wynebu nifer o heriau yn ymwneud â llesiant staff cyn y pandemig, ac mae'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd cefnogi iechyd meddwl a chorfforol gweithlu'r GIG. Drwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig, canfûm fod cyrff y GIG wedi symud yn gyflym ar ddechrau'r pandemig i wella mentrau llesiant i gefnogi staff drwy gyfnodau digynsail. Wrth i'r pandemig ddatblygu, canfûm fod cyrff y GIG yng Nghymru wedi gweithredu ystod o fesurau i wella llesiant staff, megis creu mannau gorffwys pwrpasol, cynyddu'r ddarpariaeth o ran iechyd meddwl a llesiant seicolegol, gwella mesurau rheoli ac atal heintiau, a galluogi gweithio o bell.

39 Edrychodd fy ngwaith hefyd ar sut yr oedd cyrff y GIG yng Nghymru yn diogelu staff mewn mwy o berygl o COVID-19. Ymhlith mentrau diogelu eraill, canfûm fod pob corff wedi cyflwyno Offeryn Asesu Risg y Gweithlu COVID-19 Cymru Gyfan sy'n nodi'r rhai sydd mewn mwy o berygl ac yn annog trafodaeth am fesurau ychwanegol i'w rhoi ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu diogelu'n ddigonol. Er

[1] Ar adeg ysgrifennu, mae cyfraniad yr Ymddiriedolaeth i'r rhaglen frechu wedi dod i ben i raddau helaeth.

bod cyrff y GIG yn hyrwyddo ac yn annog staff i gwblhau'r offeryn asesu, roedd cyfraddau cwblhau yn amrywio rhwng cyrff y GIG.

40 Er bod yr argyfwng yn ddi-os wedi cael effaith sylweddol ar lesiant staff yn y tymor byr, ni ellir diystyru'r effeithiau tymor hwy.

41 Gyda gweithlu mwy blinedig yn emosiynol ac yn gorfforol nag erioed, mae'n rhaid i gyrff y GIG yng Nghymru barhau i ganolbwyntio ar lesiant staff ac ymgysylltu â staff er mwyn llywio drwy effeithiau tymor hwy yr argyfwng. Ceir rhestr wirio i gyd-fynd â fy adroddiad, felly, sy'n nodi rhai o'r cwestiynau y dylai aelodau Bwrdd y GIG fod yn eu gofyn iddynt er mwyn sicrhau bod gan eu cyrff iechyd drefniadau da ar waith i gefnogi llesiant staff.

## Asesiad strwythuredig

42 Cynlluniwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Sicrheais ddull pragmatig addas a pherthnasol i fy helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i'r pandemig. Gwnaeth fy nhîm y gwaith mewn dau gam eleni:

- Ystyriodd Cam 1 y trefniadau cynllunio a oedd yn sail i ddatblygu a chyflawni'r cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21.
- Ystyriodd Cam 2 sut addasodd trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol dros y flwyddyn. Cyfeiriodd archwilwyr hefyd at y cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

### Trefniadau cynllunio gweithredol

43 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau cynllunio gweithredol yr Ymddiriedolaeth a oedd yn sail i'r cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21. Roedd y fframwaith cynllunio yn ymdrin â chynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i lywio eu hymateb i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a gosod y sylfeini ar gyfer adfer gwasanaethau'n effeithiol.

44 Canfu fy ngwaith fod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol a monitro eu darpariaeth yn effeithiol a bod ganddynt yr hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

45 Cyflwynwyd Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar yr Ymddiriedolaeth 2020-21 (Cynllun Chwarteri 3-4) i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol, mae'n cwmpasu'r holl feysydd angenrheidiol o fewn canllawiau'r fframwaith cynllunio ac wedi bod yn destun gwaith craffu gan y Bwrdd sy'n ofynnol.

46 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal yr un dull o ddatblygu ei chynlluniau chwarterol ag a wnaeth mewn blynyddoedd blaenorol. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn ddilyniant o'r ddau gynllun chwarterol blaenorol ac mae'n seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael o ystyried yr ansicrwydd y mae'r pandemig yn ei achosi. Mae'r trefniadau i gyflawni Cynllun Chwarteri 3-4 yn ddeinamig ac wedi ymateb i'r amgylchiadau newidiol ac wedi cefnogi'r GIG ehangach.

47 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau gweithredol a strategol effeithiol i fonitro cynnydd o'i gymharu â chynlluniau gweithredol. Mae'r Bwrdd yn adolygu'n rheolaidd y cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau a nodir mewn cynlluniau gweithredol.

## Trefniadau llywodraethu

48 Roedd fy ngwaith yn ystyried gallu'r Ymddiriedolaeth i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn gan orfod ymateb i'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan y pandemig. Prif bwyslais y gwaith fu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Gwnaethom hefyd ystyried sut y cafodd busnes a ohiriwyd yn 2020 ei adfer a sut mae'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig yn llunio trefniadau yn y dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu ac adfer da parhaus.

49 Canfu fy ngwaith fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol, ond erys cyfleoedd i wella tryloywder cyhoeddus.

50 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau llywodraethu da a oedd yn addasu'n dda i'r pandemig. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi symleiddio strwythur pwyllgorau'r Bwrdd, ac mae busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau a oedd wedi'i ohirio yn ailgychwyn.

51 Mae ansawdd a chyflwyniad gwybodaeth yn y Bwrdd a'r pwyllgorau yn dda, ond ar adegau, mae cynnwys y papurau efallai yn rhy fanwl.

52 Mae tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd yn dda, ond mae rhai cyfleoedd i wella, gan gynnwys sicrhau bod recordiadau fideo a phapurau pwyllgor yn cael eu lanlwytho i'r wefan yn fuan ar ôl cyfarfodydd.

53 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno gwell trefniadau rheoli risg ac ar hyn o bryd mae'n adnewyddu trefniadau llywodraethu ansawdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynlluniau manwl i sicrhau parhad busnes parhaus a chynyddu'r capasiti i ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r holl flaenoriaethau strategol yn cael eu cefnogi gan gamau gweithredu penodol gyda chyfyngiad amser ar gyfer cyflawni.

## Rheoli adnoddau ariannol

54 Ystyriais berfformiad ariannol, rheolaethau ariannol a threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol.

55 Canfûm fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21, gyda chynllun ariannol clir i ddarparu gwasanaethau yn 2021-22.

56 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i reoli ei hadnoddau ariannol ac mae'n parhau o flwyddyn i flwyddyn i gyflawni ei dyletswyddau ariannol. Mae rheolaethau ariannol yn effeithiol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio gwybodaeth ariannol glir ac amserol i fonitro ac adrodd ar ei pherfformiad.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2021.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Datganiadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | 8 Mehefin 2021 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 15 Mehefin 2021 |
| Argymhellion yn deillio o'n harchwiliad o gyfrifon 2020-21 yr Ymddiriedolaeth | 14 Hydref 2021 |
| **Cyfrifon elusennol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | 22 Rhagfyr 2021 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 6 Ionawr 2022 (wedi'i chynllunio) |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Ei wneud yn wahanol, ei wneud yn iawn?<br>(Asesiad Strwythuredig 2020 Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru gyfan yn ymwneud â llywodraethu'r GIG yn ystod COVID-19) | Ionawr 2021 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Cyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru | Mehefin 2021 |
| Asesiad Strwythuredig 2021: Cam 1 Trefniadau Cynllunio Gweithredol | Mai 2021 |
| Gofalu am y gofalwyr?<br>(Asesiad Strwythuredig 2020 Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru gyfan yn ymwneud â llesiant staff y GIG yn ystod COVID-19) | Hydref 2021 |
| Asesiad Strwythuredig 2021: Cam 2 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol | Rhagfyr 2021 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2021 | Mawrth 2021 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2021 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r astudiaethau hyn fel arfer yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad yn dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad llywodraethu ansawdd (Cynllun Archwilio 2020) | Ebrill 2022 |

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Gwaith lleol (Cynllun Archwilio 2021) | Ebrill 2022 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2021 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £227,996 (heb gynnwys TAW). Ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, yn cyd-fynd â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, cost y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarperir i'r Ymddiriedolaeth gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru oedd £2,225.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2021 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2020-21 yr Ymddiriedolaeth. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Y risg bod rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai'r gwrthwneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 240.31-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am duedd a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Gwaith archwilio wedi'i gynllunio wedi'i gwblhau ac nid oes unrhyw fater yn codi |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Bydd y ffrydiau ariannu a'r gwariant cynyddol yn 2020-21 i ymdrin â phandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar beryglon camddatganiadau perthnasol ac ar ffurf a dull gweithredu ein harchwiliad.<br>Yn benodol, mae'r Ymddiriedolaeth a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) wedi bod yn rhan annatod o'r broses o gaffael a dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) mewn ymateb i'r pandemig. Cafodd yr Ymddiriedolaeth dros £230 miliwn o arian gan Lywodraeth Cymru i gaffael PPE i gyflenwi cyrff GIG Cymru a darparwyr gofal cymdeithasol. Darparwyd PPE hefyd i gyrff eraill yn y DU.<br>Mae risgiau posibl yn ymwneud â'r ffaith bod llawer o'r gwariant wedi'i gyflawni'n gyflym ac fe'i cymeradwywyd drwy brosesau llywodraethu symlach, yn ogystal â thriniaeth cyfrifyddu'r trefniant hwn, gan gynnwys prisio balans y stocrestr ddiwedd blwyddyn gysylltiedig. | Byddwn yn nodi'r materion allweddol a'r risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio ein gwaith i gael y sicrwydd sydd ei angen ar gyfer ein harchwiliad. | Cafodd yr Ymddiriedolaeth a'r Cydwasanaethau arian ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r pandemig. Er bod hyn yn creu cymhlethdod ychwanegol i'r cyfrifon a'r datgeliadau, ac i'n harchwiliad, ni chododd unrhyw faterion arwyddocaol ac roeddem yn gallu cael y sicrwydd angenrheidiol ar gyfer ein barn.<br>Fodd bynnag, yn gysylltiedig â hyn, o ganlyniad i'r pandemig, nid oeddem yn gallu cael y dystiolaeth archwilio angenrheidiol, sy'n ofynnol gan Safon Archwilio broffesiynol Safon ISA501 ar falansau stocrestrau perthnasol yr Ymddiriedolaeth, sef £95.564 miliwn, ac felly cyhoeddwyd barn 'cyfyngiad ar gwmpas' amodol. Mae'n bwysig pwysleisio nad oedd yr amod hwn yn ganlyniad i unrhyw ddiffygion yn systemau nac yng ngweithredoedd yr Ymddiriedolaeth, ond oherwydd effaith COVID-19 ar un o'n gweithdrefnau archwilio allweddol. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae gan Ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r ddyletswydd hon yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon gan reolwyr a gynhwysir yn y datganiadau ariannol gynnwys tuedd mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol hon.<br>Pan fo'r Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn cyflwyno adroddiad o sylwedd ynghylch y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant. | Bydd y tîm archwilio yn canolbwyntio ei brofion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd wrth lunio adroddiadau. | Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd i fantoli'r cyfrifon – nid oes unrhyw fater yn codi. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn parhau a gall y pwysau ar adnoddau staff a phwysau yn sgil gweithio o bell effeithio ar baratoi ac archwilio cyfrifon. Er bod y trefniadau gweithio o bell wedi gweithredu'n dda yn y flwyddyn flaenorol, erys risg o hyd y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol gael eu peryglu gan arwain at fwy o wallau. | Byddwn yn trafod eich proses o gau cyfrifon a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn monitro'r broses o baratoi cyfrifon. | Er gwaethaf yr heriau a ddaeth yn sgil y pandemig, lluniodd yr Ymddiriedolaeth gyfrifon amserol o ansawdd da ynghyd â phapurau gwaith o ansawdd da. |
| Mae gweithredu'r fenter 'scheme pays' mewn cysylltiad â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol yn parhau. Y llynedd, roeddem wedi cynnwys paragraff Pwyslais ar Fater yn y farn archwilio gan dynnu sylw at eich datgeliad o'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Fodd bynnag, os gwneir unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn, byddem o'r farn ei fod yn afreolaidd gan ei fod yn groes i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus. | Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth ar ôl blwyddyn o fanteisio ar y cynllun a'r angen am ddarpariaeth, a'r effaith ganlyniadol ar y farn ar reoleidd-dra. | Yn yr un modd â chyrff eraill GIG Cymru, cynhwyswyd paragraff Pwyslais ar Fater yn ein barn archwilio ynghylch y mater hwn. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Disgwylir i drosglwyddiadau tir rhwng yr Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddigwydd yn ystod 2020-21 mewn cysylltiad â Chanolfan Ganser newydd arfaethedig Felindre. Disgwylir i effaith hyn fod yn berthnasol. | Byddwn yn monitro cynnydd hwn ac, os yw'n briodol, yn adolygu'r driniaeth gyfrifyddu gysylltiedig. | Digwyddodd y trosglwyddiad tir yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21 a chafwyd tystiolaeth i roi sicrwydd bod hyn yn cael ei gyfrif yn briodol o fewn datganiadau ariannol 2020-21. |

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.